

**Gwerthuso a Blaenoriaethu  
Cyfranogol - Menter Iaith y Fflint  
Medi 2011**

**Adroddiad gan**

 **TJB Cymru Cyf.**

**Ar ran Menter Iaith Fflint**

**Medi 2011**



**TJB Cymru Cyf.**  
**Alaw Cynfal,**  
**Penrhyndeudraeth**  
**Gwynedd**  
**LL48 6PR**  
**Ffôn: 01766 770015**  
**Ffacs: 01766 771808**  
**[Gareth@tjbcym.net](mailto:Gareth@tjbcym.net)**



# Cynnwys

1. **Cyflwyniad**
2. **Y Digwyddiad**
3. **Gweithgareddau a Thechnegau a ddefnyddiwyd yn y Digwyddiad**
  - 3.1 **Wal Syniadau a Wal Bryderon**
  - 3.2 **Siarad Cymraeg**
  - 3.3 **Sylwadau ar Feysydd Gwaith**
  - 3.4 **Blaenoriaethu Meysydd Gwaith**
5. **Canlyniadau o'r Digwyddiad**
  - 5.1 **Wal Syniadau**
  - 5.2 **Wal Bryderon**
  - 5.3 **Siarad Cymraeg**
  - 5.4 **Sylwadau ar Feysydd Gwaith**
  - 5.5 **Blaenoriaethu Meysydd Gwaith**



# 1. Cyflwyniad

Cafodd TJB Cymru (TJB) eu comisiynu gan Fenter Iaith Fflint i hwyluso'r broses o werthuso prosiectau'r Fenter a blaenoriaethu ar gyfer y dyfodol. Fe fyddai canlyniadau'r gwaith yn galluogi'r Fenter i ystyried gwerth eu prosiectau cyfredol a chael buddgyfranogwyr i flaenoriaethu eu gwaith ar gyfer y 3 mlynedd nesaf.

Yr oedd y Fenter eisiau ymgymryd ag ymarferiad i ymgynghori gyda'r gymuned leol a'u partneriaid yn y gwaith.

Fe gynlluniwyd digwyddiad ymgynghori yng Nghlwb Rygbi'r Wyddgrug ar Nos Iau 15 Medi 2011.

Comisiynwyd TJB Cymru Cyf (TJB) i hwyluso'r digwyddiad. Yr oedd y rhaglen waith fel y dilyn:

- Cyfarfod rhwng TJB ac aelodau'r Fenter i drafod anghenion a pharatoi at y digwyddiad
- TJB i ddatblygu cyfres o weithgareddau cyfranogol gall cael eu defnyddio yn y digwyddiad
- Y Fenter i hwyluso'r digwyddiad ar 15 Medi 2011 gyda chymorth TJB
- TJB i ddadansoddi'r canlyniadau, paratoi adroddiad ac i adrodd yn ôl ar y canfyddiadau.

### **3. Y Digwyddiad**

Fe gynhaliwyd y digwyddiad yng Nghlwb Rygbi'r Wyddgrug Nos Iau 15 Medi 2011. Trefnwyd bwffe ar gyfer y noson ac adloniant i ddilyn. Fe wahoddwyd aelodau'r gymuned ynghyd a chynrychiolwyr partneriaid y Fenter Iaith.

Mae Gwerthuso Cyfranogol (GC) yn fethodoleg sydd yn creu cylch o hel data, myfyrio a dysgu - a thrwy hyn weithredu. Yn ddelfrydol mae pob grŵp o gyfranogwyr yn symud trwy'r gwahanol gyfnodau, yn gyntaf yn edrych ar eu canfyddiadau o'u sefyllfa bresennol, yna adnabod rhwystrau a bylchau a chynnig atebion neu newidiadau. Yn arferol mae'r sesiynau yn cael eu hymgymryd gan gyfoedion, pobl sydd yn penderfynu cyfranogi ac yn penderfynu ar eu lefel o gyfranogaeth.

Mae GC yn hynod o hyblyg. Gall gael ei ddefnyddio gyda grwpiau bychan a chymunedau cyfan. Gall gael ei ddefnyddio ble bynnag mae pobl yn ymgynnull: yn eu tai, mewn tafarndai, mewn siopau neu ar gornel stryd. Nid yw'n ddibynnol ar gael pobl at ei gilydd mewn cyfarfodydd.

Mae'r adrannau canlynol o'r adroddiad yma yn disgrifio'r gweithgareddau a ddefnyddiwyd ynghyd a'r canlyniadau a gafwyd.

## **4. Gweithgareddau a Thechnegau a ddefnyddiwyd yn y digwyddiad**

### **4.1 Wal Syniadau a Wal Bryderon**

#### **Disgrifiad**

Yr oedd y gweithgaredd yma wedi ei baratoi er mwyn rhoi cyfle i gyfranogwyr i nodi unrhyw syniadau neu sylwadau ar gyfer gwaith y Fenter neu sefyllfa'r Gymraeg yn y Sir. Y gobaith oedd y byddai'r gweithgaredd yma hefyd yn cynhyrchu syniadau newydd. Hefyd gall unrhyw syniad, ddim ots pa mor annelwig, sbarcio meddwl person arall a fyddai, efallai, yn arwain at syniad mwy ymarferol.

Yr oedd y ddwy 'wal' wedi cael ei pharatoi trwy orchuddio paneli arddangos â phapur ac arlunio siapiau brics ar y papur. Yr oedd y cyfranogwyr yn cael eu hannog i roi eu syniad/pryder oddi mewn i fricsen. I osgoi dyblygu ac i gael rhywfaint o flaenoriaethu syniadau roedd y cyfranogwyr yn gallu ticio

syniad/pryder rhywun arall os oeddynt yn cytuno a rhoi croes os oeddynt yn anghytuno.

## 4.2 Siarad Cymraeg

### Disgrifiad

Yn y gweithgaredd yma ceisiwn ddarganfod y budd mae pobl yn cael allan o siarad Cymraeg a rhai o'r problemau maent yn wynebu. Pwysigrwydd y gweithgaredd yma yw ei fod yn dangos beth sydd yn bwysig i bobl wrth arddel y Gymraeg a rhaid bod yn ofalus i beidio ag ymyrryd â phethau mae pobl yn hoff ohonynt wrth ddatblygu'r Iaith a fewn y gymuned. Ar y llaw arall mae'r pethau sydd yn y categori "ddim mor dda" yn dangos bod pobl wedi adnabod pethau i wella arnynt a gall y rhain fod yn amcanion tymor byr i'r Fenter.

Ar gyfer y gweithgaredd yma fe baratowyd dau fath o daflen allan o bapur A4 - un wedi ei thorri i siâp crys T ("Top") ac yr ail i siâp trôns ("Pants"). Ar y crys T yr oedd y datganiad "Y peth dwi'n hoffi fwyaf am siarad Cymraeg yw ...." ac ar y trôns "Y peth dwi'n hoffi lleiaf am siarad Cymraeg yw ...". Fe roddwyd lein dillad i fyny ac fe anogwyd pobl/plant i osod eu "dillad" (eu taflenni gorffenedig) arni gyda phegiau dillad.

## 4.3 Sylwadau ar Faterion Penodol

### Disgrifiad

Roedd y Fenter angen i gael pobl i ystyried eu meysydd gwaith cyfredol a rhoi eu sylwadau arnynt. Fe fydd y meysydd yma yn sail i waith y Fenter dros y blynyddoedd nesaf a fyddai'n dda cael sylwadau penodol ar bob maes gwaith. Y meysydd gwaith oedd:

- ◆ Rhieni Ifanc
- ◆ Plant
- ◆ Dysgwyr
- ◆ Pobl Ifanc
- ◆ Sector breifat

Dyfeisiwyd gweithgaredd i alluogi cyfranogwyr i ystyried y materion yma ac i roi eu sylw arnynt.

Ysgrifennwyd pob maes gwaith ar daflen bapur "flipchart" a'i osod ar fwrdd. Rhoddwyd post-it notes a phensel i bob cyfranogwr a gofynnwyd iddynt ysgrifennu eu sylwadau ar y post-it a'i osod ar y daflen bapur priodol.

#### 4.4 Blaenoriaethu Meysydd Gwaith

Roedd y Fenter angen darganfod pa feysydd gwaith oedd yn flaenoriaeth gan aelodau'r cyhoedd a chynrychiolwyr partneriaid y Fenter ar gyfer y cyfnod gwaith nesaf.

Penderfynwyd defnyddio matrices i hwyluso'r penderfyniadau yma. Nod gweithgaredd i flaenoriaethu neu sgorio trwy ddefnyddio matrices yw galluogi unigolion i flaenoriaethu eu dewisiadau dros y gwahanol opsiynau. Penderfynwyd defnyddio matrices "blaenoriaethu fesul pâr".

Mae'r math yma o flaenoriaethu yn cymryd un elfen ac yn ei chymharu i bob elfen arall yn ei thro. Yn y matrices yma fe restrwyd y pum maes gwaith ar hyd y rhes uchaf o'r matrices a'r un pum maes gwaith i lawr golofn gyntaf y matrices. Yna fe fyddai pob maes gwaith yn cael ei chymharu â'r meysydd gwaith eraill yn ei thro (gweler isod).

	<b>Rhieni Ifanc (RhI)</b>	<b>Plant (P)</b>	<b>Dysgwyr (D)</b>	<b>Pobl Ifanc (PI)</b>	<b>Sector Breifat (SB)</b>
<b>Rhieni Ifanc</b>					
<b>Plant</b>					
<b>Dysgwyr</b>					
<b>Pobl Ifanc</b>					
<b>Sector Breifat</b>					

Fel y gwelir mai hanner y matrices fel drych i'r hanner arall (hynny yw mai modd cymharu dau faes gwaith penodol mewn dau flwch). Defnyddiwyd y



rhan uchaf o'r matrices i gynrychiolir partneriaid y Fenter a'r rhan isod i'r cyhoedd.

## 5. Canlyniadau o'r Digwyddiad

### 5.1 Wal syniadau

Y canlynol yw'r canlyniadau o'r gweithgaredd. Mae'r syniadau wedi eu nodi yn yr iaith a ddefnyddiwyd ar y diwrnod.

<b>Syniad</b>
Promote to English speakers that they can attend Welsh events - it will help them learn and give them encouragement
Prosiect cefnogi dysgwyr mewn siopau/caffis ayb. Hyrwyddo bathodyn "dwi'n dysgu" a hyrwyddo bathodyn "Iaith Gwaith"
More promotional material to give to young parents on the benefits of Welsh Medium Education
Give parents more information the benefits of Welsh Medium Education and possibilities - open to all including English speaking parents
Mwy o gydweithrediad rhwng ysgolion cynradd y Sir ac Ysgol Maes Garmon - cryfhau'r dilyniant o un i'r llall
Hyfforddiant Cymraeg mewn gweithgareddau megis nofio, pêl droed, rygbi. Timau Cymraeg?
Tell English speaking parents that if their children go to a Welsh school they will not have trouble with homework or speaking to parents
Cynghorwyr i asesu effaith eu penderfyniadau ar y Gymraeg
Holi'r dysgwyr am eu syniadau hwy
Angen meithrinfa Gymraeg yn y Dref i bobl gael gweithio llawn amser
Mwy o help i dargedu teuluoedd dwyieithog. Fel enghraifft teulu hefo un rhiant Saesneg a'r llall yn Gymro
Gweithgareddau awyr agored trwy'r Gymraeg ar gyfer pobl ifanc er mwyn defnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgolion a cheisio gwneud siarad Cymraeg yn "cŵl" yn lle fod hi'n fyrdwn
Cymraeg i'r teulu CAG Coleg Harlech <ul style="list-style-type: none"><li>- Parhau i drefnu gweithgareddau anffurfiol ar y cyd</li><li>- Aelod o'r Fenter i ymweld â chyrsiau prif ffrwd CIT i godi ymwybyddiaeth o rôl y Fenter</li><li>- Beth am gynllun i fwydo rhieni o'r ysgolion Saesneg i gyrsiau blasu Hwyl i'r Teulu - oes posibl gweithio ar y cyd ar hyn?</li></ul>
Rhoi cymorth i gael mwy o ddigwyddiadau Cymraeg a chefnogaeth i rai sydd yn bodoli yn barod
Hyfforddiant/gwersi Cymraeg i staff cinio yn Ysgolion Cynradd Cymraeg - yn y lleoliad

Cynnig gwersi Cymraeg o fewn meithrinfa breifat. Mi fuasai hyn yn gadael i blant o deuluoedd Saesneg glywed yr iaith
Dod a'r bathodyn "Dwi'n siarad Cymraeg" a Dwi'n dysgu Cymraeg" yn ôl i ddefnydd o fewn siopau a swyddfeydd
Arwyddion yn Gymraeg yn gyntaf
Helpu dysgwyr ymarfer mwy yn y Gymuned
Gwaith ardderchog yn cael ei wneud gan Cittaslow yn lleol, angen cydweithio i sicrhau fwy o bresenoldeb Cymraeg e.e. annog mudiadau fel Merched y Wawr a Chlwb Wil Bryan i wirfoddoli/cymryd rhan
Eisiau mwy o gefnogaeth gan fusnes a'r Cyngor
Angen mwy o gydweithrediad Cymry Cymraeg i helpu dysgwyr - beth am gynllun "Mêt Iaith"?
Ysgol Gynradd Gymraeg yng Nglannau Dyfrdwy
Sut allwn ni wneud y Sir yn le mwy deniadol i Gymry o lefydd eraill symud i mewn i'r Sir?
Gwobr "Gwasanaeth Cymraeg" - gwasanaethau'r Cyngor Sir
Gofyn i rieni di-gymraeg sydd wedi rhoi plant i mewn i ysgolion Cymraeg fod yn "Champions"- does dim angen poeni am waith cartref
Mwy o hyrwyddo Ysgol Maes Garmon yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg
Gwersi theatr/dawnsio yn Gymraeg i blant a phobl ifanc
Mwy o gynrychiadau Cymraeg yn Theatr Clwyd
Paratoi pamffledi i'r Cymry fel y bônt yn cael gwybodaeth am y Fenter Iaith
Ymweld â Chynghorau Bro'r Sir i godi ymwybyddiaeth am y Fenter Iaith
Annog mwy o bobl ifanc o fewn y Cymunedau i fod yn aelodau o'r Cynghorau Bro a datblygu defnydd o'r Iaith yn y Cynghorau
Hysbysebu'r gweithgareddau a digwyddiadau nesaf yn ystod y gweithgaredd blaenorol
Codi proffil yr Iaith Gymraeg yn yr ardal - yn enwedig yn y Wyddgrug
Codi proffil y Gymuned Gymraeg o fewn Cymuned y Sir
Dwyn perswâd ar Gyngor Tref i farchnata'r Wyddgrug fel "Tref Ddwyieithog" lle mae'r Gymraeg i'w gweld a'i chlywed
Cynyddu defnydd yr Iaith yn y gweithle
Creu awyrgylch "Cymreig" yn y Dref
Bathodynau "Cymraeg" i staff siopau ac ati sy'n siarad Cymraeg - rhoi cyfle i ddysgwyr gael ymarfer a Chymry Cymraeg gael cyfle i siarad
Sicrhau bod ein Cynghorwyr Sir yn gwybod am <ul style="list-style-type: none"> <li>- Yr Iaith Gymraeg</li> <li>- Ein hysgolion Cymraeg</li> </ul>

- Y Fenter a'i gwaith
Mae Sir y Fflint angen mwy o gefnogaeth i wneud pethau yn ddwyieithog
Ceisio cael mwy o wybodaeth am addysg Gymraeg i rieni newydd trwy'r Sir i gyd
Cefnogi gweithgareddau fel Gŵyl Daniel Owen a C3

## 5.2 Wal bryderon

Y canlynol yw'r canlyniadau o'r gweithgaredd. Mae'r pryderon wedi eu nodi yn yr iaith a ddefnyddiwyd ar y diwrnod.

<b>Pryder</b>
Colli cyllid/arian ar gyfer syniadau da
Colli cyllid
Dyfodol ysgolion Cymraeg y Sir
Iaith y plant yn cael ei boddi
Colli'r ieuencid sydd yn siarad Cymraeg i ardaloedd eraill oherwydd gwaith
Rhai rhieni wedi mynychu Ysgolion Cymraeg ond wedyn yn anfon eu plant i ysgolion Saesneg
Tydi pobl ddim yn teimlo bod nhw'n byw mewn gwlad annibynnol
Dim gwasanaeth Cymraeg gan y Cyngor Sir (derbynfeydd)
Pam bod rhieni sydd wedi bod drwy Faes Garmon yn anfon eu plant i Ysgol Gymraeg ond yn defnyddio'r Saesneg i gyfathrebu hefo'r plant?
Mae angen cynnal gwaith ymchwil i ddarganfod pam fod gymaint o gyn-ddisgyblion Maes Garmon yn dewis peidio defnyddio'r iaith ar ôl gadael ysgol
Cytundebau gwaith tymor byr i rai swyddi
Diffyg dealltwriaeth ynglŷn ag addysg Gymraeg yn y Cyngor Sir
Ieuencid yn siarad Cymraeg a'i gilydd
Diffyg athrawon Cymraeg ail iaith
Colli staff sydd yn gweithio yn y maes
Prinder tiwtoriaid Cymraeg i oedolion
Datblygiad yr Iaith Gymraeg yn Sir y Fflint
Colli addysg Gymraeg yn y Sir
Mae Cymry Cymraeg ifanc yn cyrraedd ysgol gynradd ac yn dysgu bod rhaid troi i'r Saesneg er mwyn chwarae hefo plant o'r un oed. Oherwydd polisi ysgolion a grwpio plant yn ôl oedran e.e. os oes 6 Cymro Cymraeg yn dechrau mewn ysgol efallai byddant yn cael eu gwahanu ac felly yn dysgu bod rhaid troi i'r Saesneg er mwyn chwarae hefo plant bach eraill. Erbyn i

bawb ddysgu digon o Gymraeg i fedru ei ddefnyddio wrth chwarae mae perthynas y plant hefo'i gilydd wedi datblygu trwy'r Saesneg. Mae'n hynod anodd wedyn i blant newid y berthynas i fod yn un Gymraeg wedyn. Credaf fod angen cefnogi plant a chadw cryfder plant mamiaith gyda'i gilydd ac yna ar ôl cyfnod byr (e.e.  $\frac{1}{2}$  tymor) mae perthynas cadarn gan y plant drwy'r Gymraeg. Hefyd mae'r plant o gefndir di-gymraeg wedi dysgu digon o Gymraeg gan yr athrawon a'r cynorthwywyr i fedru deall y Cymry Cymraeg yn siarad Cymraeg hefo nhw. Bydd llai o angen i'r plant droi i'r Saesneg er mwyn cyd-chwarae wedyn.

Llawer o'r rhai sydd yn gwneud gwaith gwirfoddol yn mynd yn hŷn. Neb yn cymryd eu lle.

Lleihad mewn cyllid cyhoeddus

Staff ategol mewn ysgolion Cymraeg angen cefnogaeth i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg

Diffyg dealltwriaeth am y Gymraeg o fewn ein cymdeithas

### 5.3 Siarad Cymraeg

Mae'r gweithgaredd yma yn fuddiol gan ei fod yn dangos y pethau sydd yn bwysig i bobl parthed yr iaith ac fe ddylid bod yn ofalus wrth ymyrryd â rhain wrth baratoi unrhyw gynlluniau. Ar y llaw arall, mae'r pethau sydd wedi eu nodi yn yr adran "ddim cystal" yn dangos y pethau mae pobl eisiau eu newid a gallent ddod yn amcanion tymor byr.

#### 5.3.1 Y peth dwi'n hoffi fwyaf am Siarad Cymraeg yw.....

- Y teimlad fy mod adref
- Cymdeithasu hefo cymuned glen croesawgar - wedi mwynhau dysgu'r iaith
- Y ffaith bod ein diwylliant ni'n unigryw ac yn werth ei drysori a'i warchod ar gyfer y dyfodol (a'i rhannu â chymaint â phosibl o bobl)
- Mynd i'r Ysgol Gymraeg a bod fi fy hun yn Gymraes
- Bod fi'n mynd i'r Ysgol Gymraeg
- Mod i'n ddwyieithog
- Bod gen i opsiynau
- Ei fod yn gwneud chi ychydig bach yn "sbesial"
- Mynd i'r Ysgol Gymraeg
- Tafodiaith wahanol a geiriau unigryw i ardaloedd gwahanol e.e. snapyn yn Sir y Fflint! Wrth fy modd hefo geiriau fel "hiraeth" sydd yn unigryw i'n hiaith ni.

- Gallu ymlacio a bod yn fi fy hun heb deimlo'n israddol
- Fy mod i'n mynd i Ysgol Gymraeg
- Clywed fy mhlant yn ateb yn Gymraeg
- Yw ei fod yn gwneud i mi deimlo'n fwy o Gymro
- Ein bod ni'n arbennig
- Dyma sydd yn naturiol (hyd yn oed i hogyn o Sir y Fflint)
- Siarad Cymraeg gyda'n teulu a ffrindiau yn naturiol - sgwrs a phaned
- Cael defnyddio gair Cymraeg i ddisgrifio lle nad oes gair Saesneg
- Ymdeimlad o Gymreictod a phleser wrth siarad Cymraeg hefo cyfoedion ac wrth ei haddysgu
- Teimlo'n rhan o gymuned Gymraeg
- Yr agosatrwydd mae'n hybu

### 5.3.2 Y peth dwi'n hoffi lleiaf am Siarad Cymraeg yw.....

- Bod pobl yn flin pan 'da chi'n gofyn "Da chi'n siarad Cymraeg?" - gwneud ni deimlo'n euog
- Bod pobl ofn trio, ac yn colli hyder yn y Gymraeg. Mae angen annog a chefnogi pawb sydd ddim yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf.
- Cael wynebâu blanc pan ddywedaf bethau fel rhif y pwmp yn Tesco
- Making a fool of myself
- Sgwennu - dwblu'r n!!
- Bod popeth yn Saesneg
- Siarad yn y cywair priodol hefo dysgwyr
- Mentro defnyddio'r Gymraeg lle nas gwn beth yw'r gallu'r cwmni o ran y Gymraeg.
- Y treigliadau
- Anghofio'r gair Cymraeg
- Nid rhywbeth dwi'n cael trafferth hefo ond mae llawer o bobl dwi'n adnabod ddim yn teimlo fod ganddynt ddigon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael ysgol
- Bobl ddi-gymraeg yn meddwl fy mod yn ystyried fy hun yn aelod o glwb exclusive?

## 5.4 Sylwadau ar Feysydd Gwaith

Y sylwadau ar feysydd gwaith y Fenter oedd:

### RHIENI IFANC

- ◆ Anogwch rieni di-gymraeg sydd a'u plant yn yr ysgolion Cymraeg i ddysgu Cymraeg (dosbarth nos i rieni "Dysgwyr Bl6 Ysgol Maes Garmon)
- ◆ Dangos y ffordd i rieni/oedolion/mamau a thadau. Clwb Gwawr, Merched y Wawr, manteisio ar fudiadau sydd yn y gymuned yn barod - codi proffil mudiadau a sefydliadau lleol
- ◆ Annog rhieni ifanc i ymuno a chlybiau cymunedol sy'n gwneud defnydd o'r iaith
- ◆ Sicrhau bod rhieni pob plentyn a enir yn Sir y Fflint (neu a enir i deulu sy'n byw yn y Sir) yn cael gwybodaeth am fanteision addysg Gymraeg
- ◆ Creu prosiectau celfyddydol, diwylliannol â'n arbennig ar gyfer rhieni ifanc
- ◆ Cyrsiau Cymraeg i rieni sydd gyda phlant mewn Ysgolion Cymraeg er mwyn datblygu'r Iaith adref hefyd
- ◆ Hyrwyddo addysg Gymraeg i rieni ar draws y Sir fel bod pob rhiant yn cael gwybodaeth am addysg Gymraeg fel opsiwn
- ◆ Dangos manteision dwyieithrwydd
- ◆ Cyfieithu gwahanol adnoddau er mwy i blant eu defnyddio er mwyn datblygu'r Gymraeg - yn enwedig mewn ysgolion "Saesneg" y Sir. Hefyd annog rhieni i yrru eu plant i Ysgolion Cymraeg eu hiaith ymhellach
- ◆ Sicrhau fod Awdurdod Lleol y Sir yn gwerthu addysg gyfrwng Gymraeg yn gywir - ac anelu at gyfle i bawb (lleisio hyn ar y fforwm addysg Gymraeg 23/9/11 ayb)
- ◆ Annog pob rhiant sy'n cysylltu hefo'r Ysgol Gymraeg i ddysgu'r Iaith er mwyn helpu'r plant. Gwnewch yn siŵr bod gan bawb wybodaeth.
- ◆ Swyddog Twf yn yr ardal er mwyn adeiladu hyder rhieni newydd o bwysigrwydd trosglwyddo'r Iaith i'w plant (llawer o gyn disgyblion YMG yn dewis Addysg Gyfrwng Saesneg)
- ◆ Helpu hyrwyddo Ti a Fi a Chylchoedd a helpu iddynt barhau

### PLANT

- ◆ Weithiau, i bobl sydd ddim wedi tyfu i fyny yn y "system", mae'r Urdd yn ymddangos yn elitaid. Mae'n ddrud iawn i deulu hefo 2 neu 3 o blant i ymaelodi a mynd i'r eisteddfod - Glan-llyn &

Llangrannog yn ddrud iawn hefyd. Beth am docyn teulu rhad i'r eisteddfod? Plant am ddim?

- ◆ Mwy o bwyslais ar greu cyfleoedd i blant rhugl yn eu Cymraeg - a llai o bwyslais ar blant sy'n derbyn addysg gyfrwng Saesneg
- ◆ Creu profiadau tu allan i'r Ysgol sydd yn datblygu sgiliau a gallu drwy gyfrwng y Gymraeg - hanes, celf, dawn, drama ayyb
- ◆ Angen Swyddog TWF sy'n gweithio yn ardal Sir y Fflint i godi ymwybyddiaeth mamau a thadau newydd
- ◆ Oes modd hysbysebu gwyliau cyfrwng Cymraeg yn fwy effeithiol?
- ◆ Creu cyfres o nosweithiau gyda ffocws penodol ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu/llwyfannu e.e. sesiynau drama (gweithdy) i bl 3 a 4 a/neu 5 a 6 arwahân (angen i'r grwpiau fod yn reit fychan) & sicrhau dilyniant o sesiynau
- ◆ Ceisio cael mwy o blant i addysg Gymraeg
- ◆ Hyrwyddo digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg y tu allan i addysg
- ◆ Annog i wirfoddolwyr fynd mewn i ysgolion cynradd ac "arwain" chwarae yn Gymraeg. Angen trefnu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer y gwirfoddolwyr (efallai fyddai CRB yn broblem ac yn gost)
- ◆ Mwy o "playschemes" Cymraeg a/neu weithgareddau trwy wyliau'r ysgol
- ◆ Cyfleoedd diwylliannol ar wahân i eisteddfodau - e.e. clybiau ieuencid, grwpiau dawnio gwerin/cloccio - cyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg tu allan i'r ysgol
- ◆ Angen rhoi arweiniad a chefnogaeth i blant ddysgu sut i "chwarae" yn y Gymraeg ar fuarth yr ysgol gynradd
- ◆ Dangos y ffordd i rieni gyda babanod a phlant dan 5 - cyfeirio - Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin, Addysg Gymraeg
- ◆ Hysbysebu addysg Gymraeg yn well
- ◆ Cyfeirio a hwyluswyr i blant/pobl ifanc tuag at fanteisio ar weithgareddau Urdd - adran, uwch adran, aelwyd - a YFC
- ◆ Ysgol Gynradd Gymraeg yng Nglannau Dyfrdwy
- ◆ Hybu chwarae yng Nghymraeg - ariannu Ti a Fi a Chylch - enwedig mewn ysgolion
- ◆ Darparu mwy o sylfaen "chwarae i ddysgu" i blant gael defnyddio eu Cymraeg (yr hyn a ddysgant yn yr ysgolion Cymraeg) y tu allan i'r ysgol e.e. sesiwn wythnosol am 6 wythnos dyweder - tydi 1 sesiwn ddim o werth - rhaid cael cyfres i adeiladu perthynas

## **DYSGWYR - HYDER IEITHYDDOL**

- ◆ Angen i'r Fenter barhau i gefnogi gweithgareddau, er bod cyllid y prosiect Iaith a Threftadaeth wedi Gorffen



- ◆ Bathodynnau i staff sy'n siarad Cymraeg mewn siopau/caffis/swyddfeydd
- ◆ Dysgwyr yn awyddus i ffeindio allan pa gaffis sy'n addas i ymarfer eu Cymraeg ynddynt. Rhestr efallai?
- ◆ Trefnu gweithgareddau yn achlysurol ar gyfer unigolion sydd yn dod i'r ardal ac eisiau deall treftadaeth a chefnidir unigryw'r ardal
- ◆ Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer yn anffurfiol plîs! Adfywio'r sesiwn sgwrs yn y dafarn.
- ◆ Cynllun mentora dysgwyr gweithleoedd neu/a sesiynau sgwrs/clwb cinio
- ◆ Hyrwyddo pobl i siarad Cymraeg - efallai rhoi dysgwyr mewn cysylltiad gyda "buddy" Cymraeg o'r ardal maen nhw'n byw er mwyn actio fel mentor iddynt a rhoi gwybodaeth am bethau
- ◆ Mwy o weithgareddau yn benodol ar gyfer teuluoedd dwyieithog gydag un rhiant yn ddi-gymraeg/dysgu
- ◆ Sicrhau bod pob digwyddiad/gweithdy cyhoeddus yn gwneud defnydd o'r ddwy iaith gyda phwyslais ar y Gymraeg
- ◆ Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Iaith yn y Gymuned
- ◆ Efallai rhestr o lefydd sy'n rhoi croeso i ddysgwyr sydd eisiau cyfathrebu trwy gyfrwng Cymraeg - cefnogi busnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg

## **POBL IFANC**

- ◆ Prosiect ar gyfer cyn-ddisgyblion Maes Garmon sydd ddim yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg
- ◆ Cyfleoedd i bobl ifanc sy'n rhugl eu Cymraeg (e.e. disgyblion YMG a YGC) i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol
- ◆ Datblygu sgiliau trwy glybiau sirol - traws sirol e.e. chwaraeon, drama a pherfformio, sgwadiau sgwennu ayb
- ◆ Marchnata'r Iaith a'i wneud yn fwy "Cŵl" i bobl ifanc ei ddefnyddio
- ◆ Cyfleoedd i ddisgyblion ysgolion Cymraeg ddefnyddio'r Iaith yn fwy trwy wahanol weithgareddau a nosfeydd
- ◆ Gwersi break dancing Cymraeg
- ◆ Cyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg a chael hwyl. Fel bod yr Iaith yn iaith mwy nag addysg
- ◆ Gweithdai graffiti fel Banksy
- ◆ Mae amrywiaeth dda o ddigwyddiadau a gweithgareddau yma - angen parhau i'w cefnogi/ariannu
- ◆ Gwneud yn siŵr fod y dysgwyr yn cael eu cynrychioli ar i Fforwm Gymraeg

- ◆ Mwy o weithdai animeiddio a ffilm am bethau sydd o ddiddordeb i bobl ifanc & defnyddio dychymyg (dim cestyll)
- ◆ Trip siopa i Fanceinion 'Dolig
- ◆ Noson aduniad i gyn disgyblion YMG gyda'r amod eu bod nhw'n siarad Cymraeg gyda'i gilydd
- ◆ Creu digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg ar gyfer pobl ifanc
- ◆ Mwy o glybiau trwy gyfrwng y Gymraeg
- ◆ Dod a phobl o'r sector breifat & cyhoeddus i mewn i ysgolion i ddangos y cyfleoedd a'r manteision
- ◆ Zwmba yn y Gymraeg

## SECTOR BREIFAT

- ◆ Cefnogaeth i weithwyr sydd eisiau dysgu'r Iaith
- ◆ Mynd o ddrws i ddrws i gynnig cyfieith "flyers", posteri, arwyddion ayb
- ◆ Bathodyn "siarad Cymraeg" i'r gweithwyr sy'n gallu
- ◆ Hysbyseb busnesau a gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg - felly helpu busnesau & codi proffil yr Iaith
- ◆ Hybu'r Iaith trwy brosiectau cymunedol y gall y sector breifat eu cefnogi - cymryd rhan ynddynt
- ◆ Mwy o bres ar gael ar gyfer cwmnïau i ddatblygu a chreu arwyddion a deunyddiau dwyieithog
- ◆ Bod fel pont rhwng y sector breifat a mudiadau a phrosiectau naws Gymreig
- ◆ Cyfrannu arbenigedd sector breifat i'r sector wirfoddol
- ◆ Help gyda'r sector wirfoddol
- ◆ Rhoi cymorth i gael cyfieithu ansawdd dda
- ◆ Mi hoffwn weld mwy o staff yn gwisgo bathodyn os ydyn nhw'n siarad Cymraeg a chefnogaeth i staff ddilyn cyrsiau Cymraeg
- ◆ Gweithio gyda'r Cyngor Sir (adran datblygu busnes) i annog busnesau'r Sir i gyflwyno'r Gymraeg yn eu gwaith. Mae'r Cyngor Sir yn rhedeg Wythnos Fusnes pob mis Hydref ac mi fydda wobwr am ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnes yn wych! √√
- ◆ Mwy o grantiau ar gyfer busnesau i ddatblygu deunyddiau dwyieithog √√

## 5.5 Blaenoriaethu Meysydd Gwaith

Roedd canlyniadau'r matrices fel a ganlyn:

	Rhieni Ifanc (RhI)	Plant (P)	Dysgwyr (D)	Pobl Ifanc (PI)	Sector Breifat (SB)
Rhieni Ifanc		P 3 RhI 2	D 3 RhI 5	PI 4 RhI 1	SB 3 RhI 3
Plant	RhI 9 P 6		D 0 P 5	PI 3 P 2	SB 1 P4
Dysgwyr	RhI 6 D 9	P 12 D4		PI 2 D 2	SB 2 D4
Pobl Ifanc	RhI 3 PI 10	P 7 PI 4	D 11 PI 5		SB 0 PI 5
Sector Breifat	RhI 13 SB 1	P 13 SB 0	D 13 SB 1	PI 13 SB 0	

### 5.4.1 Blaenoriaethau Partneriaid

Mae Partneriaid y Fenter Iaith (a phobl broffesiynol yn y maes) wedi nodi eu blaenoriaethau fel a ganlyn:

Rhieni Ifanc	11
Plant	14
Dysgwyr	9
Pobl Ifanc	14
Sector Breifat	6

Felly roedd y Partneriaid yn gosod y meysydd gwaith Plant a Rhieni Ifanc fel blaenoriaeth, Rhieni Ifanc yn ail, wedyn Dysgwyr ac yna'r gwaith gyda'r Sector breifat.

### 5.4.2 Blaenoriaethau aelodau'r gymuned

Mae'r aelodau o'r gymuned a fynychodd y digwyddiad wedi nodi eu blaenoriaethau fel a ganlyn:

Rhieni Ifanc	31
Plant	38
Dysgwyr	37
Pobl Ifanc	32
Sector Breifat	2

Roedd aelodau'r gymuned felly'n gosod y maes gwaith gyda Phlant yn gyntaf, Dysgwyr yn ail, yna Pobl Ifanc ac wedyn Rhieni Ifanc. Fe osodwyd gwaith gyda'r Sector Breifat yn olaf ond gyda llawer llai o "pleidleisiau" na'r gweddill.

### 5.4.3 Blaenoriaethau ar y cyfan

Wrth uno'r "pleidleisiau" gallwn weld bod y cyfranogwyr ar y noson wedi gosod y meysydd gwaith yn y flaenoriaeth isod:

Rhieni Ifanc	42
Plant	52
Dysgwyr	46
Pobl Ifanc	46
Sector Breifat	8

**Gosodwyd y maes gwaith gyda Phlant fel y flaenoriaeth gyntaf, maes gwaith Dysgwyr a Phobl Ifanc yn gydradd ail, maes gwaith Rhieni Ifanc yn bedwerydd a'r gwaith gyda'r Sector Breifat yn olaf gael iawn.**